# YSGOL Y PRESELI

COFIA DDYSGU BYW

# Y GARREG LAS

# CYLCHLYTHYR HYDREF 2019

# AUTUMN NEWSLETTER


**Ffôn: 01239 831406**

**Rhif Llinell Absenoldeb: 01239 831009**

**E-bost: swyddfa@ysgolypreseli.com**

# Gair gan y Pennaeth / Word from the Headteacher

Croeso i Gylchlythyr cyntaf y flwyddyn academaidd hon.

Llongyfarchiadau mawr i ddisgyblion safon Uwch a TGAU ar eu llwyddiannau yn yr arholiadau allanol eleni.
Hoffwn longyfarch disgyblion Bl 13 ar ennill canlyniadau rhagorol. Roedd 40% o'r holl raddau yn A*-A, 89% yn A*-C a 99% yn A*-E. Dyma gyfres arall o ganlyniadau arbennig ac rwy'n ymhyfrydu fod gymaint o fyfyrwyr wedi sicrhau lle mewn prifysgolion o'u dewis, wedi llwyddo i gael prentisiaethau mewn amryw feysydd neu wedi sicrhau swyddi yn yr ardal leol. Dymunwn bob llwyddiant i'r myfyrwyr ar gyfer y dyfodol.

Llongyfarchiadau gwresog i bawb o Flwyddyn 11 ar eu llwyddiant yn yr arholiadau TGAU 2019. Roedd y canlyniadau ymysg y gorau yn hanes Ysgol y Preseli ac hoffwn ddiolch i'r disgyblion a'u rhieni am eu gwaith caled, cefnogaeth a chydweithrediad yn ystod y bum mlynedd diwethaf. Mae 90 o ddisgyblion wedi cychwyn ar eu cyrsiau safon Uwch a chroeso arbennig i'r disgyblion hynny sydd wedi ymuno â'r chweched dosbarth o ysgolion cyfagos. Hefyd, dymunwn yn dda i'r disgyblion hynny sydd wedi sicrhau lle yn y colegau lleol, ennill prentisiaethau a chyflogaeth leol.

Braf nodi bod yr ysgol am y bedwaredd flwyddyn yn olynol wedi'i chategoreiddio'n wyrdd dros dro ac felly yn ein gosod ymysg yr ysgolion gorau yn y wlad. Nid ar chwarae bach mae'r ysgol yn cyrraedd y safonau academaidd uchel hyn yn flynyddol. Diolch yn fawr iawn i bawb am sicrhau safonau uchel o ddysgu ac addysgu ac am sicrhau bod ein disgyblion yn cael y cyfleoedd gorau i lwyddo. Anelwn at wella ein cyrhaeddiadau ymhellach eleni a sicrhau cynnydd parhaus yn ein perfformiad.

Gobeithio y byddwch chi'n mwynhau darllen am ddigwyddiadau a gweithgareddau diweddaraf yr ysgol sy'n darparu blas i chi o gyflawniad a llwyddiannau academaidd ac allgyrsiol ein disgyblion.

Cynhelir Noson Agored Ysgol y Preseli ar Ddydd Llun, Tachwedd 11eg rhwng 5.00-8.00yh. Bydd cyfle i rieni a darpar ddisgyblion weld yr ysgol ar waith. Croeso cynnes i bawb. Cynhelir y Ffair Nadolig ar nos Iau Tachwedd 28ain am 7.00 yh a'r Gyngerdd Nadolig ar 18fed a 19eg o Ragfyr.

*I would like to congratulate all Yr 13 pupils on gaining outstanding results once again this year. 40% of grades were awarded at A*-A; 89% at A*-C and 99% A*-E. This is yet another impressive set of results and I am delighted that so many of our students have done so well. I am particularly pleased that the vast majority attained places at the universities of their choice, gained apprenticeships in a range of fields and employment in the local area. All at the school wish them every success in the future.*

*Congratulations to all Year 11 pupils on attaining excellent GCSE results this year. The grades attained are amongst the best achieved by the school. I would like to thank the pupils and parents for their support and co-operation over the past five years. It is very pleasing to note that 90 students have started their A Level courses and we extend a very warm welcome to those who have joined us from neighbouring schools.*
*It is a pleasure to inform you that the school has for the fourth year in succession been categorised green therefore placing Ysgol y Preseli amongst the best schools in the country. We are all very proud of the pupils' achievements and I thank all the staff for their hardwork, dedication and commitment in providing teaching and learning of the highest quality and ensuring that pupils are given the best opportunities to succeed. We will continue to strive to build on our achievements and improve on our performance.*

*The Ysgol y Preseli Open Evening will be held on Monday, November 11th between 5.00-8.00pm. Parents and prospective pupils will be given the opportunity to see the school at work. A very warm welcome to everyone. The Christmas Fayre will be held on Thursday November 28th at 7.00pm and the Christmas Concerts on 18th and 19th December.*

*I hope you enjoy reading the latest news form the school which gives you a flavour of the pupils' academic and extra-curricular successes.*

*M L Davies*

# Blwyddyn 7 / Year 7

Mae blwyddyn 7 wedi cael amser prysur iawn yn ystod eu wythnosau cyntaf yn Ysgol y Preseli: tripiau Dyniaethau a'r Adran Saesneg, lluniau blwyddyn ac unigol, gwylio sioe 'Dygwyl y Meirw', cynrychioli'r ysgol mewn timoedd chwaraeon; heb sôn am y gwaith a'r mwynhau o ddydd i ddydd.

Un uchafbwynt oedd cael y cyfle i wylio gêm rygbi Cymru yn erbyn Fiji. Roedd awyrgylch yr ystafell yn wych gyda blwyddyn 7 yn mwynhau canu wrth gefnogi'r bois! Braf hefyd oedd gweld y disgyblion yn cefnogi 'Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth' wrth wisgo coch.



*Year 7 have had a very busy first few weeks at Ysgol y Preseli: Humanities and English department trips, individual and whole class photographs, watching the 'Festival of the Dead' show, representing the school in sporting activities; without touching on the work and day to day enjoyment .*

*One highlight was the opportunity to watch Wales V Fiji rugby match. Year 7 students embraced the opportunity and created a fantastic atmosphere full of singing and support! It was also great to see the students supporting the 'Show Racism the Red Card' scheme by wearing red.*



Llongyfarchiadau i Scarlet Evans a Stormbreaker ar gystadlu ym mhencampwriaeth Prydeinig David Broome wrth ddod yn 1af yn y gystadleuaeth o dan 11 oed. Hefyd, llongyfarchiadau i Ffion Bowen ar gynrychioli Cymru wrth chwarae pel-droed. Cafodd y tîm rygbi cryn dipyn o lwyddiant wrth chwarae yn y twrnament hwyl hefyd. A phob lwc i bob un sy'n treialu i fod yn rhan o'r tim pêl-droed a fydd yn mynd i Lydaw.

*Congratulations to Scarlet Evans and Stormbreaker on gaining the 1st place in the David Broome British Show Jumping in the under 11 category. Also, congratulations to Ffion Bowen who has represented Wales as part of the football team. The rugby team also had a successful day in the recent fun tournament. Good luck to all those who are training for a place in the football team which will be going to Brittany.*





Llongyfarchiadau i'r unigolion sydd wedi derbyn lle ar y fforwm dosbarth ac i Zoe Thomas a Cai James ar gael eu hethol fel aelodau o'r Senedd Ysgol.

*Congratulations to the individuals who are on their class forums and to Zoe Thomas and Cai James who have been chosen as the Yr 7 School Parliament representatives.*

# Blwyddyn 8 / Year 8



**Disgybl Talentog -** Ers sawl blwyddyn bellach mae Megan Lewis wedi bod yn marchogaeth a chystadlu mewn cystadlaethau neidio ceffylau ledled y wlad. Enw ei cheffyl yw 'Blueberry' ac mae'r ddau wedi cael llwyddiant ysgubol yn ennill sawl gwobr dros y flwyddyn a hanner diwethaf ers i'r ddau ddechrau cystadlu gyda'i gilydd. Uchafbwynt y flwyddyn oedd cystadlu yn Sioe pum niwrnod yng Nghaerwent yng nghanolfan enwog David Broome. Mae Megan yn teimlo ei bod yn fraint o gael marchogaeth ceffyl mor anhygoel â Blueberry.

***A Talented Pupil -*** *For a number of years Megan Lewis has been horse-riding and competing in show jumping competitions across the country. Blueberry's the name of her horse and they have had numerous successes in winning a number of prizes since they started competing together over the past year and a half. The highlight of the year was competing in a five day show at the famous David Broome event centre in Caldicot. Megan feels privileged that she's able to ride such a special horse as Blueberry.*



**Dawnswraig Talentog -** Mae Lydia Mathias yn aelod o academi ddawns 'Heaven' yn Abertawe lle mae'n ymarfer hyd at dair gwaith yr wythnos ar ei chrefft o ddawnsio rhydd a chyfoes. Dechreuodd Lydia ddawnsio 6 mlynedd yn ôl ac ers hynny mae wedi cael llawer o lwyddiannau yn y maes. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mae wedi cystadlu mewn nifer o wahanol gystadlaethau, megis Pencampwriaeth Cymru, Pencampwriaeth Prydain a Phencampwriaeth 'DKKQ' a oedd yn cynnwys ysgolion dawnsio enwog mor bell â De'r Affrig. Heb os, prif uchafbwynt y flwyddyn i Lydia oedd ennill ei chategori ym Mhencampwriaeth 'Top of the Pops'. Llongyfarchiadau mawr ar dy lwyddiant Lydia a gobeithio fe gawn glywed am fwy o lwyddiannau yn y dyfodol!

***Talented Dancer -*** *Lydia Mathias is currently a member of Heaven Dance Academy in Swansea where she trains up to three times a week in freestyle and contemporary dance. She started dancing over 6 years ago and this has resulted in many successes over the past few years. This year she has competed in numerous events such as the Welsh Championships, British Championships and DKKQ Championships which included dance schools from as far as South Africa. The highlight of Lydia's year has to be winning her dance category at the Top of the Pops Championships. Many congratulations on your success Lydia, hopefully we will hear of more successes in the future!*

**Llwyddiannau'r Sioeau -** Llongyfarchiadau mawr i Angharad Thomas sydd wedi bod yn teithio o gwmpas sioeau amaethyddol lleol er mwyn arddangos ei chi Lily. Cafodd lwyddiant diri yn enwedig yn sioe gwn Hwlffordd - ble enillodd y wobr gyntaf ac ail yn ogystal â'r ci gorau yng nghategori'r Papillions. Dalier ati Angharad a gobeithio rhyw ddiwrnod y byddwn yn dy wylio di a Lily yn sioe gwn Crufts.

***Showing Success*** - *Congratulations to Angharad Thomas who has been competing in various local agricultural shows where she has been showing her dog Lily. She had a lot of success especially at Haverfordwest Dog Show where she won the first and second prize and the best in the Papillions category. Keep going Angharad, let's hope one day we will see you and Lily competing at Crufts.*






**Treiathletwyr Disglair -** Llongyfarchiadau enfawr i Dewi Thomas a Rhys Caygill ar gael eu dewis i fod yn aelodau o dîm Treiathlon Cymru yn ddiweddar. Ar ddechrau Mis Medi fe wnaeth y ddau gymryd rhan ym Mhencampwriaeth Prydain yng Nghaerlŷr. Ar y Dydd Sadwrn fe wnaeth Dewi gystadlu yn y ras Unigol cyn iddo ef a Rhys gystadlu gyda'i gilydd yn y ras gyfnewid gymysg ar y Dydd Sul. Profiad arbennig i'r ddau a phob lwc iddynt yn y dyfodol!

***Successful Triathletes -*** *Congratulations to Dewi Thomas and Rhys Caygill on their recent selection as members of the Welsh Triathlon team. At the start of September both pupils took part in the British Championships in Leicester. On the Saturday Dewi competed in the individual race before he and Rhys competed together as members of the mixed relay team on the Sunday. A wonderful experience for both boys and good luck for the future!*

# Blwyddyn 9 / Year 9



**Coleg Cerdd a Drama, Caerdydd**
Llongyfarchiadau i Lefi Dafydd ar ennill lle yn y 'Conservetoire' Iau yng Ngholeg Cerdd a Drama, Caerdydd bob dydd Sadwrn. Mae'n cael gwersi arbenigol ar y piano, gwersi cerddoriaeth a theori cerddoriaeth.

***College of Music and Drama, Cardiff***
*Congratulations to Lefi Dafydd on gaining a place at the Junior Conservatoire in the College of Music and Drama, Cardiff, every Saturday. He receives advanced piano lessons, music lessons and music theory lessons.*



**Cwpan 6 Gwlad a'r Goron Driphlyg yn Ysgol y Preseli**
Cafodd disgyblion gyfle i rannu llwyddiant tim rygbi Cymru wrth gael llun gyda chwpan y 6 Gwlad a'r Goron Driphlyg. Dyma lun o ferched blwyddyn 9 gyda'r tlysau.

***6 Nations Trophy and Triple Crown in Ysgol y Preseli***
*Pupils had the opportunity to share the Grand Slam success of the national rugby team by having their photos taken with the 6 Nations Trophy and Triple Crown Shield. These year 9 girls took the opportunity to enjoy the celebrations.*


**Llwyddiant ym myd marchogaeth i Lisa**
Llongyfarchiadau i Lisa Smart a chafodd ei dewis i gynrychioli Cymru ym Mhencampwriaethau 'Dressage' dan 25 Sheepgate yn Lincoln ym mis Awst. Diolch i'w pherfformiadau anhygoel (1af ac 2il), sicrhaodd ei thîm yr ail safle ar y podiwm allan o 14 tîm o bob rhan o'r DU.



***Horse riding success for Lisa***
*Congratulations to Lisa Smart who was chosen to represent Wales at the Sheepgate 'Dressage' U25 Championships in Lincoln in August. Thanks to her amazing performances (1st and 2nd), her team secured a 2nd place on the podium out of 14 teams from all over UK.*


**Eich Dewis, Eich Dyfodol**
Ar y 15fed o Hydref, cafodd holl ddisgyblion blwyddyn 9 gyfle i fwynhau amrywiaeth o weithgareddau gyrfaol yn yr ysgol. Roedd 5 sesiwn gwahanol gan gynnwys cyflwyniadau am Addysg Uwch, Menter, Cymraeg yn y gweithle, Cwis gyrfaoedd a gweithgareddau ymarferol, galwedigaethol.

**Your Choice, Your Future**
On the 15th of October, all year 9 pupils were given the opportunity to enjoy a Careers day at the school. There were 5 hour long sessions which included presentations on Further Education, Enterprise, Welsh in the workplace, a careers quiz and practical, vocational activities.









# Blwyddyn 10 / Year 10

Rhaid canmol y flwyddyn ar hanner tymor llwyddiannus, gyda phawb yn mwynhau eu pynciau dewisol a chyrsiau TGAU.

Blwyddyn brysur yw'r flwyddyn hon sy'n serennu o fewn y byd chwaraeon a thros yr haf bu nifer yn llewyrchus mewn amryw o feysydd amrywiol. Does dim dwywaith amdani bod Michael Jenkins yn enw i'w gofio oherwydd ei ddoniau arbennig o fewn y byd athletau, a llongyfarchiadau iddo am gystadlu dros ein gwlad a Phrydain yn ystod yr Haf. Yn ychwanegol i hyn, fe lwyddodd Michael i ennill y teitl Pencampwr Para Brydeinig am daflu'r ddisgen. Bydd Michael i'w weld ar y teledu'n cystadlu cyn bo hir!




Aelod addawol o'r flwyddyn yw Amelia McBeth sy'n aelod o garfan gymnasteg Cymru.  Dwy ferch dalentog o'r flwyddyn hon sy'n prysur wneud enw da i'w hunain o fewn y gamp o farchogaeth yw Hetty Lort-Phillips a Kizzie Lucas. Llwyddodd Hetty i gystadlu dan enw'r ysgol o fewn cystadleuaeth neidio Pencampwriaeth Ysgolion Prydain gyda'i cheffyl tra bod Kizzie wedi ennill lle i arddangos ei cheffylau yn HOYS (Horse of the Year Show). Llwyddodd i gael ei thynnu i mewn gan y beirniad a gosodwyd hi o fewn yr 11 ceffyl uchaf o fewn y ddau ddosbarth.

Nid yn unig o fewn y meysydd chwaraeon yr ydym ni fel blwyddyn yn serennu. Mae Ceirian Evans wedi ennill gwobr yr aelod gorau o fforwm ieuenctid CFFI eleni a mawr ei chlod am hynny!



*After settling back into school and enjoying their new GCSE courses, we must congratulate the year on a successful half term.*

*This year group is a very, very busy group of pupils who have excelled within sport over the summer. Michael Jenkins has made quite an impression within the world of athletics. Michael represented Wales and Britain during the summer months, home and abroad! In addition, Michael won the British Discus Para Champion.*



*A very promising athlete of the year is Amelia McBeth who has won her place within the Welsh Gymnastic team. Two very talented individuals are Hetty Lort-Phillips and Kizzie Lucas who've made a name for themselves in equestrian competitions.  Hetty, and her horse, competed in the show jumping competition and under the school name in the British School Championships, whilst Kizzie won a place to compete on two horses in HOYS (Horse of the Year Show). She was placed within the top 11 horses within both classes.*

*Ceirian Evans from year 10 has won the best youth forum member for YFC this year which is a great achievement. Congratulaions.*

# Blwyddyn 11 / Year 11

Mae cychwyn blwyddyn 11 o hyd yn gyfnod brysur tu hwnt lle mae mynydd o bethau i'w cyflawni o fewn cyfnod byr o amser.

Llwyddodd y disgyblion i gael canlyniadau modylau TGAU yn ystod yr haf a oedd yn bositif tu hwnt ac fe fydd hwn yn rhoi hwb i bob disgybl. Serch hynny, does dim amser i'w golli. Mae disgyblion wedi bod yn gweithio'n galed tuag at eu harholiadau llafar Cymraeg a Saesneg. Mae presenoldeb y disgyblion o fewn gwersi adolygu Mathemateg wedi bod yn uchel wrth iddynt baratoi tuag at eu harholiadau allanol. Yn ychwanegol, mae nifer o ddisgyblion yn cymryd rhan yn y sioe Nadolig ac amrywiaeth o gampau chwaraeon.

Yn flynyddol, mae pob dosbarth cofrestru yn ethol aelodau fforwm ac yn y pendraw dau aelod seneddol. Maent yn chwarae rôl hanfodol o fewn llunio polisïau'r ysgol ond yn bwysicach, yn cynrychioli eu barn hwy. Mae'n bwysig iddynt leisio eu barn ac fe fydd yr aelodau yma'n sicrhau hynny.

Fel pennaeth blwyddyn, mae o hyd yn hyfryd i glywed canmoliaeth gan aelodau o'r cyhoedd. Mae gennym nifer fawr o ddisgyblion yn gweithio tuag at ennill eu gwobrau Dug Caeredin ac sydd newydd gwblhau'r alldaith. Mi roedd yn bleser i dderbyn dau e-bost gan aelodau o'r cyhoedd yn canmol y disgyblion am fod mor barchus. Yn amlach na pheidio ar y newyddion mae straeon negyddol yn pardduo pobl ifanc heddiw ac felly mae eisiau i ni dynnu sylw at yr agweddau positif yn amlach.

Llongyfarchiadau i Pheobe Noott a Gruffydd Green ar eu llwyddiant o fewn eu campau hoci a hwylio.





*The start of year 11 is always a hectic time with so much to do and seemingly so little time.*

*Pupils received exam results over the summer which were hugely positive and will have given confidence to each individual. However, there is no let up. Pupils have been engaged in GCSE speaking assessments in both Welsh and English. Revision sessions have been well attended in preparation for the external Maths exams. On top of this, many pupils are involved in the Christmas show and sporting activities, it certainly is a busy time.*

*As in every year, each class has selected members to represent them and two were voted onto the school pupil council. These play a vital role in shaping policies in the school and more importantly, allowing the voice of pupils to be heard. Year 11 pupils should have a voice and those elected will ensure that their voice is heard.*

*As Head of the Year, it is always pleasing when pupils receive praise from people in the community. We have a great number of pupils who are undertaking Duke of Edinburgh awards and who recently completed the expedition element. It was lovely to receive two e-mails from members of the public praising the pupils for their politeness and spirit. Too often there are negative news stories about teenagers and this can colour opinion, we need to be more positive.*

*Again congratulations to Pheobe Noott and Gruffydd Green for their success in hockey and sailing respectively.*

# 6ed Dosbarth / Sixth Form

Cafodd disgyblion y Chweched Dosbarth y cyfle i fod yn rhan o'r gynulleidfa ar gyfer rhaglen 'Hawl i Holi' BBC Radio Cymru yn ddiweddar. Recordiwyd y rhaglen yn Abergwaun. Yn ystod y rhaglen trafodwyd pynciau llosg y dydd a braf oedd clywed y disgyblion yn mynegi eu barn mewn modd mor aeddfed a deallus.



*Sixth Form pupils were given the opportunity to be a part of the audience during a recent recording of 'Hawl i Holi' BBCRadio Cymru recently. The programme was recorded in Fishguard. During the programme a variety of topical issues were debated and it was wonderful to hear the pupils contributing such mature and intelligent views.*



Llongyfarchiadau i'r disgyblion a'r athrawon hynny a lwyddodd i gwblhau hanner marathon Caerdydd yn ddiweddar. Rhedodd criw o ddisgyblion sydd yn astudio Cerddoriaeth yn y Chweched Dosbarth er mwyn cefnogi elusen Motor Neurone. Cwblhaodd Mr Trystan Phillps (Pennaeth yr Adran Gerdd) y ras yn ogystal.

*Congratulations to the pupils and Staff who recently completed the Cardiff Half Marathon. A number of pupils who are studying Music in the Sixth Form ran in order to raise money for Motor Neurone Research. Mr Trystan Phillips (Head of Music) also completed the race.*

Braf oedd cael croesawu Mr Tony Ensom o Glwb Rotari Arberth a Hendy Gwyn i gyfarfod y Senedd Ysgol yn ddiweddar. Yn ystod y cyfarfod cafodd Mr.Ensom y cyfle i rannu gwybodaeth gyda'r Senedd ynglŷn â'r cynllun Interact. Bwriad y cynllun yw helpu ysgolion i drefnu gweithgareddau er mwyn codi arian i gefnogi elusennau ac i wneud cysylltiadau ag ysgolion mewn gwledydd eraill ar draws y byd.

*Mr Tony Ensom (Narbeth and Whitland Rotary Club) attended the School Senedd meeting recently to share information about the Rotary Club's Interact scheme. The purpose of Interact is to help pupils to organise activities with the aim of raising money for charity. The scheme also encourages schools to develop links with other schools across the globe.*

Yn ddiweddar cynhaliwyd cyfres o wasanaethau dan ofal y Prif Swyddogion. Ffocws y gwasanaethau oedd hawliau plant a gwaith Senedd yr Ysgol am eleni. Braf oedd cael cyfle i wrando ar gyfraniadau graenus y Prif Swyddogion. Yn ogystal, yn ystod y gwasanaethau cyflwynwyd aelodau eraill o'r Senedd i'r disgyblion.

*During assemblies recently the Head Girl, Head Boy and their Deputies were given an opportunity to share their vision for the School Senedd this year and to focus on the rights of the child. It was pleasing to be able to listen to the pupils' ideas and the quality of each presentation was excellent. Other members of the School Senedd were also introduced to the pupils.*

# 6ed Dosbarth / Sixth Form



Braf yw cael cyhoeddi enwau ein Prif Swyddogion ar gyfer 2019/2020 sef Ffion Thomas (Prif Ferch), Morgan Williams (Prif Fachgen), Manon Simmons (Dirprwy Brif Ferch), Leia Burge (Dirprwy Brif Ferch), Mirain James (Dirprwy Brif Ferch), Rhun Phillips (Dirprwy Brif Fachgen). Llongyfarchiadau a phob dymuniad da iddynt wrth iddynt gychwyn ar eu dyletswyddau.

*It is a pleasure to announce that our Principal Officers for 2019/2020 are – Ffion Thomas (Head Girl), Morgan Williams (Head Boy), Manon Simmons (Deputy Head Girl), Leia Burge (Deputy Head Girl), Mirain James (Deputy Head Girl), Rhun Phillips (Deputy Head Boy). We congratulate them all and wish them well as they commence on their duties.*

Croesawyd Gwenan Davies o'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol i'r ysgol yn ddiweddar. Cafodd Gwenan y cyfle i rannu gwybodaeth gyda disgyblion Bl 13 ynglŷn â'r cyfleoedd di ri sydd ar gael bellach i astudio modylau gradd wahanol trwy gyfrwng y Gymraeg yn y Brifysgol. Ymhyfrydwn yn y ffaith bod cyn ddisgyblion o Ysgol y Preseli sef Teleri Wilson a James Hope wedi ennill Ysgoloriaeth William Salesbury gwerth £5000 yn y gorffennol a bod Rebecca Martin sydd bellach yn astudio ym Mhrifysgol Abertawe wedi ennill Ysgoloriaeth Mered eleni am ei chyfraniad i fywyd diwylliannol Cymreig y Brifysgol.

*Gwenan Davies from the Coleg Cymraeg Cenedlaethol visited the school recently. During her presentation she was able to outline the number of Welsh medium modules and courses available for study in Welsh Universities. We take great pride in the fact that former pupils i.e. Teleri Wilson and James Hope succeeded in being awarded the William Salesbury scholarship worth £5000 in the past and that Rebecca Martin who is currently studying at Swansea University was awarded the prestigious Mered Scholarship this year for her contribution to the Welsh cultural aspect of life at the University.*

Teithiodd disgyblion o Fl 12 i Brifysgol Abertawe ar ddydd Mercher, Hydref 2ail ar gyfer lawnsiad Rhwydwaith Seren 2019/2020. Yn ystod y digwyddiad cafodd y disgyblion gyfle i fynychu darlithoedd Prifysgol, i ymweld â ffair Addysg Uwch, i fynychu sesiwn yn ffocysu ar baratoi cais llwyddiannus ac i ymweld â nifer o adrannau gwahanol y Brifysgol. Roedd Gareth Thompson o Fl 13 yno fel Llysgennad Seren. Yn ystod y gynhadledd cafodd Gareth y cyfle i rannu ei brofiadau yn dilyn ei daith i Brifysgol Yale yn ystod yr haf.

*Year 12 students travelled to Swansea University on Wednesday, October the 2nd to attend the launch of the Seren Network 2019/2020. During the launch they were given a taste of University lectures, were able to attend a HE fair, access talks based on preparing for the application process and to visit various departments at Swansea University. Gareth Thompson (Year 13) was present as a Seren Ambassador. During the conference Gareth was able to share his experiences following his trip to Yale University in America during the summer.*



Ar nos Fercher, Hydref 2ail cafodd Rachael Morgan o Fl 13 y cyfle i rannu ei phrofiadau yn seiliedig ar ei chyfranogiad yng nghwrs RYLA yn ystod yr Haf. Ymunodd Rachael a Mr.Dafydd Hughes ag aelodau Clwb Rotari Arberth a Hendy gwyn yng Ngwesty Plas Hyfryd ar gyfer y dathliad. Yn ystod ei chyflwyniad cyfeiriodd Rachael at yr holl heriau arweinyddol a gwblhawyd ganddi yn ystod yr wythnos. Ar ddiwedd y noson cyflwynodd Llywydd y clwb Elaine Bradbury dystysgrif i Rachael yn cydnabod ei llwyddiannau. Hefyd yn y llun mae Mrs Barbara Rumbold.

*On Wednesday, October 2nd Rachael Morgan form Year 13 was given an opportunity to share her experiences based on her participation in the RYLA course in the summer. During the presentation at the Plas Hyfryd Hotel the members of the Narberth and Whitland Rotary Club were able to hear about the various leadership tasks and challenges that she faced during the week. At the end of the evening Rachael was presented with a certificate recognising her achievement by the Club President Elaine Bradbury and Mrs Barbara Rumbold.*

# Absenoldeb!

## Faint o amser allwch chi ei golli?

presenoldeb 95% = 9.5 diwrnod i ffwrdd mewn blwyddyn ysgol = Chwarter blwyddyn ysgol wedi'i golli yn ystod Blwyddyn 7 i Flwyddyn 11



Am ragor o wybodaeth ewch i
**www.sir-benfro.gov.uk/presenoldebynyrysgol**
neu e-bostiwch: **educationpn@pembrokeshire.gov.uk**
neu ffoniwch: **01437 764551**

**Targed Ysgol y Preseli 2019/20 yw 95.9%**

***Ysgol y Preseli's target attendance for 2019/20 is 95.9%***

# Cymraeg / Welsh



Bnawn Sadwrn, Hydref 5ed, fel rhan o ddathliadau dadorchuddio cofeb i T.E. Nicholas (Niclas y Glais), bu Mirain James yn cyflwyno ar gân un o gerddi'r bardd mewn seremoni ar Grugiau Dwy, Mynachlogddu. Gyda'r nos, bu rhai o ddisgyblion yr ysgol ynghyd ag aelodau o'r adran Gymraeg yn cymryd rhan mewn sioe gymunedol - "Mae'r dydd yn dod" - yn Theatr y Gromlech pan adroddwyd hanes bywyd diddorol y cymeriad hwn o fro'r Preseli.

*As part of the celebrations for the unveiling of a memorial dedicated to the poet T E Nicholas (Niclas y Glais), Mirian James presented one of his poems in a ceremony on Crugiau Dwy, Mynachlogddu. On the evening of October 5th, pupils and staff from the Welsh Department took part in a community production "Mae'r dydd yn dod" which celebrated the colourful life of the poet.*



Llongyfarchiadau i griw o ddisgyblion blwyddyn 9 ar ennill Cystadleuaeth Cwis Llyfrau rhanbarth Sir Benfro a Chaerfyrddin ym mis Gorffennaf. Cafwyd canmoliaeth uchel iddynt o safbwynt eu trafodaeth aeddfed a chynhwysfawr o'r nofel ôl-apocolyptaidd sef Llyfr Glas Nebo. Diolch i Mrs Lowri Hubbard a Miss Naomi Nicholas am hyfforddi'r disgyblion.

*Congratulations to pupils in year 9 on winning the Book Quiz for secondary schools in the Pembrokeshire and Carmarthenshire region.*



Estynnwn ein llongyfarchiadau cynhesaf i Mirain James o flwyddyn 13 ar ddod yn fuddugol yng nghystadleuaeth Tlws yr Ifanc yng Ngŵyl Fawr Aberteifi ar ddiwedd tymor yr haf. Cyflwynodd Mirain stori fer ar gyfer y gystadleuaeth a derbyniodd ganmoliaeth uchel gan y beirniad. Bwriada Mirain astudio'r Gymraeg ym Mhrifysgol Aberystwyth y flwyddyn nesaf.

*The Welsh Department extend their warmest congratulations to Mirain James of Year 13 on winning the Youth Literary Prize at Gŵyl Fawr Aberteifi, at the end of the summer term. Mirian presented a short story which was highly praised by the adjudicator. She hopes to continue her studies in Welsh at Aberystwyth University next year.*

Fel rhan o weithgareddau Gwyl Bro'r Preseli eleni cafodd blwyddyn 7 gyfle i wylio cwmni pypedau Seren Ddu a Mwnci yn perfformio sioe 'Dygwyl y Meirw' yn Theatr y Gromlech yn Ysgol y Preseli, ddydd Mercher, Hydref 23ain. Sioe oedd hon yn dathlu chwedlau ein hynafiaid ac yn cyflwyno cymeriadau a hanesion traddodiadol Cymreig i'r gynulleidfa. Roedd hwn yn gyfle gwych i'r disgyblion i gyfoethogi'u dealltwriaeth o draddodiadau a chwedlau Cymru yn ogystal â mwynhau profiad theatrig dyfeisgar a chyffrous.

*The puppet company 'Black Star and Monkey' visited Ysgol y Preseli on Wednesday the 23rd of October to perform their new production 'Festival of the Dead.' Year 7 pupils were given the opportunity to see the production which was a winter's tale celebrating our ancestors and Celtic festival of the dead traditions, told with the help of traditional Welsh characters. This was a valuable opportunity for the pupils to learn more about Welsh folk tales and traditions and also to enjoy an exciting theatrical experience.*







# Saesneg / English



Roedd hi'n braf gweld cynifer o'n disgyblion bl 7 ag 8 yn cymryd rhan yn y gystadleuaeth llenyddiaeth a gynhaliwyd gan Ffrindiau Llwybr Cenedlaethol Sir Benfro. Cafwyd 33 o geisiadau ar y thema 'natur'- gyda'n disgyblion yn dathlu hyfrydwch ein hamgylchfyd ar ffurf cerddi, straeon byrion, llythyrau a dyddiaduron natur.

Llongyfarchiadau i Esyllt Corp, bl 8 am ennill y wobr gyntaf gyda'i llythyr disgrifiadol hyfryd. Enillodd Indigo Young yr ail wobr gyda'i dyddiadur bywyd gwyllt deniadol a daeth Mared Nicholas yn drydydd yn y gystadleuaeth. Da iawn i'r dair ohonynt ac i bob disgybl gymerodd ran yn y gystadleuaeth.

Braf oedd derbyn tystysgrif arbennig i Ysgol y Preseli am yr holl geisiadau a chopi o gyfrol hynod iawn Mererid Hopwood - 'Geiriau Diflanedig'.

Gobeithio y byddwn yn parhau i ddathlu creadigrwydd ein disgyblion. Llongyfarchiadau i bob un! cais!

*Pupils from Years 7 and 8 submitted a record 33 entries to this year's Friends of Pembrokeshire Coast National Park Children's Literary Competition on the theme of 'Nature'.*

*Entries included letters, poems, short stories and wildlife diaries which showcased the appreciation of nature, skill and creativity of our pupils.*

*Three Year 8 students were successful, with Esyllt Corp taking the 1st prize for her letter containing "Lyrical descriptions" of nature; Indigo Young won 2nd prize with an impressive wildlife diary and Mared Nicholas won third prize for her letter.*

*The quality and number of entries resulted in Ysgol y Preseli being awarded a Certificate of Commendation and a copy of 'Geiriau Diflandig' by Mererid Hopwood.*




Our Year 13 students were fortunate enough to see a live broadcast of Margaret Atwood speaking about her much anticipated sequel: 'The Testaments' in the Mwldan Theatre. They are studying 'The Handmaid's Tale' as part of the Year 13 course.

*Roedd hi'n fraint i ddisgyblion blwyddyn 13 gael y cyfle i glwyed Margaret Atwood yn fyw yn y Mwldan yn siarad am ei nofel newydd 'The Testaments'. Mi fydd hyn o werth i'r disgyblion wrth gwblhau eu gwaith cwrs.*

# Saesneg / English

## Taith trwy amser / *A Journey Through Time*

## Castell Henllys









Ddechrau mis Hydref aeth blwyddyn 7 ar daith trwy amser i brofi'r profiad o adrodd straeon yn yr Oes Haearn. Cafwyd bore hyfryd yng nghanol tawelwch y safle, gyda disgyblion yn mwynhau gweithgareddau amrywiol: adnabod ac enwi coed yn gysylliedig â hen chwedl 'Brwydr y Coed', cystadlu mewn gornest ymffrostio campau rhyfel a chymryd rhan mewn sesiwn o ail-greu stori Branwen tra'n eistedd o gwmpas y tân. Cafwyd llawer o hwyl!

Mwynhaodd ein disgyblion weld iaith ar waith mewn lleoliad mor hudolus!

*On October 2nd the whole of Year 7 embarked on a journey through time to experience storytelling and language in the Iron Age. The trip to Castell Henllys was bathed in sunshine as pupils enjoyed three different activities: identifying, naming and counting the types of tree involved in the legendary 'Battle of the Trees'; competing in a Celtic 'Bragging' contest for honour and glory, and participating in an atmospheric re-telling of the story of Branwen, a tale from the Mabinogion, whilst sitting around a central fire in the impressive Meeting Hut.*

*Our 'tribe' of Year 7s played their parts well and enjoyed language coming to life in such a beautiful setting.*

# Mathemateg / Mathematics

**Sialens Mathemateg Iau UKMT 2019**

Bu 20 o ddisgyblion blwyddyn 7 ac 8 yn cymryd rhan yn y sialens Mathemateg Iau.
Enillodd 1 disgybl dystysgrif Aur, sef Emily Cowie.
Enillodd 3 disgybl dystysgrif Arian, sef Harry Walker ac Andrew Johnson a Daisy Whitfield.
Enillodd 2 disgybl dystysgrif Efydd, sef Tyler Cowie a Lefi Dafydd.
Cyflwynwyd tystysgrifau am y 'Gorau yn yr Ysgol' a'r 'Gorau yn y flwyddyn' i Emily Cowie a thystysgrif 'Gorau yn y flwyddyn' i Harry Walker.
Llongyfarchiadau i'r holl ddisgyblion ar eu hymdrechion.

***Junior UKMT Mathematics Challenge 2019***


*20 year 7 and 8 pupils participated in the Junior Mathematics challenge.*
*1 pupil won a Gold Certificate, namely Emily Cowie.*
*3 pupils won a Silver Certificate, namely Harry Walker, Andrew Johnson and Daisy Whitfield .*
*2 pupils won Bronze certificate, Tyler Cowie and Lefi Dafydd.*
*Certificates for 'Best in School' and 'Best in the year' were presented to Emily Cowie and 'Best in the year' certificate to Harry Walker .*
*Congratulations to all the pupils on their efforts.*




**'Mathemateg yw eich Dyfodol'**

Yn ddiweddar cafodd rhai disgyblion Abl a Thalentog Bl 10 gyfle i fynychu Cynhadledd undydd - 'Mathemateg yw eich Dyfodol' - yng Ngoleg Sir Benfro, Hwlffordd. Bwriad y diwrnod oedd dangos sut all Mathemateg fod yn hwyl ac yn heriol a thrwy ei astudio fel pwnc yn y chweched dosbarth sut all hyn arwain at gyrsiau prifysgol a gyrfaoedd cyffrous.

Trefnwyd cyfres o weithdai ar bynciau mathemategol hwylus a datblygedig yn ystod y dydd gan gynnwys sesiynau ar strwythurau papur Mathemategol a 'Diffusion of the dead' lle cafodd y myfyrwyr gyfle i gydweithio mewn grwpiau.



***'Mathematics is your Future'***

*Recently a group of gifted and talented year 10 pupils were given the opportunity to attend a one-day conference - 'Mathematics is your Future' – at Pembrokeshire College, Haverfordwest. The aim of the day was to show how Mathematics can be fun and challenging and by studying Mathematics as a subject in the sixth form, how it can lead to exciting university courses and a variety of careers.*

*A series of workshops were organised on fun and advanced mathematical subjects during the day including a session on Mathematical paper structures and Diffusion of the Dead where students had the opportunity to work together in groups.*



# Gwyddoniaeth / Science

**Cynghrair "First Lego"**

Bydd criw o ddisgyblion blynyddoedd 8 a 9 yn cymryd rhan yng ngystadleuaeth First Lego league o dan ofal Mr Duncan Richmond.  Mae'r gystadleuaeth yn agored i dimoedd o ddisgyblion rhwng 9 a 16 mlwydd oed.  Bydd y disgyblion yn  cynllunio ac adeiladu robot, ac yna'n ysgrifennu'r côd cyfrifiadurol i alluogi i'r robot gyflawni set o dasgiau penodol.  Pob lwc i'r tîm.

***"First lego" league***

*A team of year 8 and 9 pupils will be competing in the First Lego league under the guidance of Mr Duncan Richmond.  The competition is open  to teams of school pupils between the ages of 9 and 16.  The team will have to design, build and programme a robot to complete a set of specific tasks. Best of luck!*




**Darlithoedd Genepark Cymru**

Mynychodd myfyrwyr Bioleg o flynyddoedd 12 a 13 ddarlithoedd a drefnwyd gan Genepark Cymru a'r ganolfan Darwin yng Ngholeg Sir Benfro.  Cafwyd darlithoedd difyr gan Dr Richard Webb o brifysgol Metropolitan Caerdydd ar effaith ymarfer corff ar y genynnau sy'n rheoli iechyd y galon, a gan Dr Kate Chapman a Dr Alwenna Morgan o Brifysgol Abertawe ar wyddoniaeth DNA a chancr, ynghyd â chyngor ar yrfaoedd mewn Geneteg.

***Genepark Wales lectures***

*Year 12 and 13 Biology students recently attended lectures arranged by Genepark Wales and the Darwin Centre at Pembrokeshire college.  The speakers included Dr Richard Webb of Cardiff Metropolitan University discussing the effect of exercise on biomarker genes associated with cardiovascular health, the second lecture was given by Dr Kate Chapman and Dr Alwenna Morgan of Swansea University, discussing the science of DNA and cancer, as well as giving advice on careers in Genetics.*

# Addysg Gorfforol / Physical Education





Timoedd rygbi merched dan 15 a dan 13. *Girls rugby U15 & U13 teams.*

Llongyfarchiadau i'r tîm Dan 13 ar ennill cystadleuaeth Sir Benfro. *Congratulations to the U13 team on winning the Pembrokeshire competition.*

Llongyfarchiadau mawr i dîm athletau merched Bl 7 a 8 ar ddod yn 2il yng nghystadleuaeth Cwpan NASUWT ysgolion Cymru—dim ond 2 bwynt tu ôl i'r enillwyr!

*Congratulations to the Year 7 and 8 girls athletics team on achieving 2nd place at the Welsh Schools NASUWT Cup competition—only 2 points behind the winners!*






Carfan criced Blwyddyn 9. Yn anffodus colli wnaethant yn rownd gyntaf y cwpan yn erbyn Greenhill.

*The year 9 cricket side. Unfortunately, they lost to Greenhill in the first round of the Pembrokeshire Cup.*

# Addysg Gorfforol / Physical Education







Llongyfarchiadau i dimoedd rownderi yr ysgol yng nghystadleuaeth Sir Benfro.

*Congratulations to the rounders teams in the Pembrokeshire Tournament:-*

Blwyddyn / *Year 7* = 1af/ *1st*

Blwyddyn / *Year 8* = 1af/ *1st*

Blwyddyn / *Year 9* = 3ydd/ *3rd*

Tim tenis merched blwyddyn 8—Pencampwyr Sir Benfro. Llongyfarchiadau iddynt ar gynrychioli Sir Benfro a chystadlu yn erbyn goreuon De Cymru yng nghlwb Tenis Radyr.

*Congratulations to the year 8 girls tennis team which represented Pembrokeshire Schools at the South Wales Championships at Radyr Tennis Club.*





Daeth y cwpan 6 Gwlad a'r Goron Driphlyg i'r ysgol yn ddiweddar.

Profiad unigryw i'r disgyblion a'r staff.

*Pupils & staff had the opportunity to share the Grand Slam success of the national rugby team.*

# Addysg Grefyddol / Religious Education



**AELOD NEWYDD O'R ADRAN**
Llongyfarchiadau a chroeso cynnes i Mrs Catrin Jones fel aelod o staff newydd yn yr Adran Addysg Grefyddol. Mi fydd yn gyfrifol am ddysgu pynciau Dyniaethau i ddisgyblion CA3 yn ogystal â dosbarthiadau BAC. Dymuniadau gorau iddi yn ei gyrfa newydd a phob hwyl am y dyfodol.

***A NEW MEMBER OF STAFF IN THE DEPARTMENT***
*Congratulations and a warm welcome to Mrs Catrin Jones as the newly appointed member of staff in the Religious Education Department. She will be responsible for teaching Humanities subjects KS3 students as well as BAC classes. Best wishes in her new career and all the best for the future.*





**CYRDDAU DIOLCHGARWCH**
Yn ystod ail wythnos mis Hydref cynhaliwyd cyrddau Diolchgarwch blynyddol yr ysgol. Paratowyd y gwasanaeth gan Miss Glenys George, Pennaeth yr Adran. Cymerwyd at y rhannau arweiniol gan aelodau Bl 12 a chafwyd eitem gerddorol gan Molly Thomas Bl 12 a Ffion Thomas Bl 13. Cafwyd casgliad ariannol tuag at Ward y Plant, Ysbyty Llwynhelyg ac Ymchwil Cancr. Diolch i bawb am eu cyfraniadau.

***HARVEST THANKS GIVING SERVICES***
*During the second week of October the school held its annual Harvest Thanksgiving assemblies. The service was prepared by Miss Glenys George, Head of Department. Year 12 pupuls took part in the assemblies and Molly Thomas Yr 12 and Ffion Thomas Year 13 sang a solo. A collection was made in aid of the Children's Ward, Withybush Hospital and Cancer Research. Thank you all for your contributions.*



# Celf a Dylunio / Art and Design




Arsylwadau uniongyrchol yw'r ffocws yn yr Adran Gelf yn nhymor yr Hydref gyda'r disgyblion yn creu astudiaethau amrywiol o wrthrychau. Mae'r disgyblion wedi bod yn arbrofi gydag inc, dyfrliwiau a hyd yn oed gwaith gwnio. Gweler yma rhai astudiaethau o'r bwmpen.


*Direct observation is the focus in the Art Department during the Autumn term with pupils creating various studies of real life objects. The pupils have been experimenting with ink, water colors and even sewing.  Here are some examples of pumpkin studies generated in class.*












Gweler yma astudiaethau uniongyrchol o gregyn. Mae'r disgyblion wedi treulio amser yn edrych yn ofalus ar siâp, ffurf a gwead gan arbrofi gyda deunyddiau gwahanol cyn myfyrio ar y dechneg orau i gyfleu edrychiad y cregyn. Bydd yr astudiaethau yma'n cael eu datblygu ymhellach yn llyfrau braslunio'r disgyblion.

*Pictured are direct observational studies of shells. Pupils have spent time looking carefully at shape, form and texture and experimenting with different materials before reflecting on the best technique to interpret the objects. These studies will be developed further in pupils' sketchbooks over the coming weeks.*

# Cerddoriaeth / Music

Bu'n wyliau Haf prysur iawn i nifer fawr o'n disgyblion eleni. Dyma gipolwg o rhai o'r gweithgareddau allgyrsiol y bu rhai o ddisgyblion y Preseli yn eu mwynhau.

*It was a busy Summer for many of our pupils again this year. Here's a snapshot of some of the activities Preseli pupils have been a part of this year.*



Mae nifer o'n disgyblion wedi elwa'n fawr o'r cyswllt agos gyda Band Pres Wdig dros y blynyddoedd, a doedd eleni ddim yn eithriad. Mae nifer o'n disgyblion wedi bod ynghlwm yn eu llwyddiannau wrth gystadlu dros yr Haf.

*Many of our pupils have had excellent opportunities through the connection with Goodwick Brass Band, and this summer was no exception. Many of our pupils were part of the band's competitions and successes over the past few months.*



Bu Leia o'r 6ed Dosbarth yn chwarae'n gyhoeddus mewn priodasau dros y misoedd diwethaf, gan dderbyn adborth hyfryd am safon ei pherfformio.

*Leia from the 6th Form performed publicly over the summer at events and marriages, receiving wide acclaim for her performances.*

Bu Rachel o flwyddyn 13 yn rhan o Gôr Ieuenctid Cymru a fu'n ymarfer ac yn perfformio yn ystod y gwyliau. Bu Carys o flwyddyn 12 hefyd yn rhan o nifer o gyngherddau cyhoeddus, ac hefyd yn rhan o Gerddorfa Cenedlaethol Taro ac wedi mynychu Cwrs Jazz yng Nghaerdydd.

*Rachel from Year 13 was a member of the National Youth Choir which rehearsed and performed often during the holidays. Also, Carys from Year 12 had a very busy summer playing in many concerts and attending the National Youth Percussion Orchestra and Jazz Summer School at the RWCMD.*



Bu nifer fawr o ddisgyblion yr ysgol yn rhan o weithdy telyn Claire Jones. Roedd hyn yn cynnwys nifer o weithdai a'r cyfle i berfformio ar lwyfannau yng Nghaerdydd, Abertawe ac Aberystwyth, ac ar S4C.

*Many of our pupils are part of the Claire Jones Harp School. As part of the school they are able to attend many workshops and had the opportunity to perform at prestigious concerts and venues in Cardiff, Swansea and Aberystwyth over the summer, as well as perform on S4C.*

# Drama

**EISTEDDFOD YR URDD**

Ers y rhifyn diwethaf o'r Garreg Las, teithiodd nifer o'r disgyblion i Fae Caerdydd er mwyn cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd. O'r Ymgom i'r Gân Actol ac o'r Fonolog i'r Cyflwyniadau Dramatig, perfformiodd y disgyblion gyda hyder a phresenoldeb yn ystod yr wythnos ac roedd bob un ohonynt yn lysgenhadon gwych i'r ysgol. Llongyfarchiadau i ddisgyblion Cyfnod Allweddol 3 a gipiodd y wobr gyntaf yn y Cyflwyniad Dramatig Iau!





***THE URDD EISTEDDFOD***

*Since the last edition of the Garreg Las, many of the students travelled to compete in numerous competitions in the Urdd Eisteddfod. Each one who took part showed great commitment to rehearsals, performed with confidence and were great ambassadors for the school. A big congratulations to those in Key Stage 3 who won the Cyflwyniad Dramatig and a thank you to all of the students for their enthusiasm and their readiness to compete in such an important festival.*

**Theatr Genedlaethol Ieuenctid Cymru**

Llongyfarchiadau i Maya a Molly o Flwyddyn 12 a gafodd eu dewis i fynychu cwrs dros yr Haf i weithio gyda chyfarwyddwyr proffesiynol fel rhan o Theatr Ieuenctid Cymru—da iawn chi am ddangos eich ymrwymiad i'r celfyddydau a'ch awydd i gael gymaint o brofiadau â phosibl yn y maes!



**National Youth Theatre of Wales**

*Congratulations to Maya and Molly from Year 12 who were chosen to take part in a Summer workshop with the National Youth Theatre of Wales. Not many students get this opportunity, or indeed show enough commitment to the arts to give up their Summer holidays in order to gain further theatrical experience.*

**Ar y Gweill**

Rydym yn teithio i Abertawe i weld perfformiad o 'Dau Wyneb' y mis hwn, drama osod TGAU. Bydd yr adran hefyd yn teithio i Lundain i weld perfformiad o 'A Day in the Death of Joe Egg' a 'Wicked.' Rydym wrthi hefyd yn paratoi ar gyfer arholiadau ymarferol Blwyddyn 11 a 12 a fydd yn cael eu perfformio ym mis Tachwedd.

**Forthcoming Events**

*We're travelling to Swansea this month to see a performance of 'Two Faces', the set text at GCSE. We are also going to be travelling to London to see a performance of 'A Day in the Death of Joe Egg' and 'Wicked.' Year 11 and 12 students are also preparing for their practical exams due to be performed in November.*

# Daearyddiaeth / Geography

**Taith i Wlad yr Iâ / *Iceland Trip***

Yn ddiweddar teithiodd 44 o ddisgyblion a 5 aelod o staff Ysgol y Preseli i Wlad yr Iâ er mwyn profi rhyfeddod y wlad unigryw hon. Dros bump diwrnod prysur a llawn, cawsom gyfle i weld rhai o atyniadau mwyaf enwog yr ynys gan gynnwys y Cylch Aur, llosgfynyddoedd Hekla ac Eyjafjallajökull, rhaeadrau syfrdanol Skogafoss, Seljalandfoss a Gulfoss, heicio rhewlif Solheimajokull a chrwydro trwy'r brif ddinas, Reykjavik. Profiadau gwych, bythgofiadwy i'r disgyblion!

*Recently the Geography Department organised a school trip to Iceland for 44 pupils and 5 members of staff. A fantastic time was had by all.*











# Daearyddiaeth / Geography












# Dylunio a Thechnoleg / Design and Technolgy

Braf oedd clywed ar ddiwedd tymor yr haf bod gwaith Morgan Clewer-Evans wedi ei enwebu ar gyfer Gwobr Arloesedd CBAC yn dilyn llwyddiant gyda'i waith Safon Uwch Dylunio a Thechnoleg. Yn ogystal â hyn mae gwaith Morgan wedi cael ei ddewis gan gwmni Able and Imray ar gyfer creu patent ar ei waith ac fel rhan o'r broses bu Morgan mewn cyfweliad gyda Dr Pery Jones (Able and Imray) yn ddiweddar ar gyfer dechrau hawlio'r broses ar patent a chyflwyno cais i'r swyddfa Cofrestru Hawlfraint.

Ar y 1af o Hydref teithiodd disgyblion y chweched dosbarth i Erddi Soffia yng Nghaerdydd i ymweld ag arddangosfa Gwobrau Arloesol 2019 ble gwelwyd gwaith Morgan yn cael ei arddangos yn ystod y digwyddiad. Llongyfarchiadau enfawr iddo am ennill lle yn y rownd derfynol, a fydd yn cymryd lle yn y Senedd yng Nghaerdydd ar Rhagfyr 12fed 2019, ac am gael ei enwebu i gynrychioli Cymru yn yr arddangosfa 'Big Bang' ym mis Mawrth 2020 yn NEC, Birmingham. Pob lwc i ti Morgan ac edrychwn ymlaen at glywed y canlyniadau!!



*It was wonderful to hear at the end of the summer term that Morgan Clewer-Evans' work had been nominated for the WJEC Innovation awards following his success in the A-Level Design Technology coursework. In addition to this, Morgan's work has been chosen by the company Able and Imray to create a patent of his work. Morgan was recently interviewed by Dr Pery Jones (Able and Imray) as part of the process to gain rights of his work and to present an application to the Copyright Registration Office.*

*On the 1st of October the sixth form pupils travelled to Sophia Gardens, Cardiff to the Innovation Awards 2019 exhibition in order to see Morgan's work being displayed at the event. We congratulate Morgan on gaining a place in the final round, which will be held at the Welsh Assembly in December 2019 and also for being nominated to represent Wales at the 'Big Bang' exhibition at the NEC Birmingham in March 2020. Good luck Morgan and we look forward to hearing the results in the near future!!*

# Hanes / History

## Dod â hanes yn fyw yn yr oes ddigidol! *Bringing History alive in the digital age!*

Cafodd nifer o ddisgyblion blynyddoedd 8 a 9 y cyfle ar ddiwedd tymor yr Haf i ddatblygu eu sgiliau digidol o fewn eu gwersi Hanes. Yn dilyn astudio Brwydr Bosworth a Trychineb y Titanic yn ystod y tymor bu'r disgyblion yn brysur yn creu gemau digidol gan ddefnyddio rhaglen Scratch!. Roedd hyn yn gyfle euraidd i'r disgyblion ddatblygu eu sgiliau digidol er mwyn bodloni anghenion y Fframwaith Cymhwysedd Digidol tra hefyd adolygu a myfyrio ar yr hyn roeddynt wedi ei ddysgu yn y dosbarth. Roedd nifer o'r gemau a gynhyrchwyd yn ddifyr dros ben ac yn dangos lefel uchel o arbenigedd hanesyddol a digidol, da iawn chi!

*A number of year 8 and 9 pupils had the opportunity at the end of the Summer term to develop their digital skills in their History lessons. Following the study of the Battle of Bosworth and the Titanic Disaster pupils were given the opportunity of creating a digital game using the Scratch! Programme. This was a golden opportunity for the pupils to develop their digital skills in order to meet the demands of the Digital Competence Framework whilst also reviewing and reflecting on what they had learned in the classroom. Many of the games produced were extremely entertaining and showed a high level of both historical and digital expertise, well done!*




## Ymchwilwyr Ymchwilgar Blwyddyn 8 / *Year 8's Brilliant Researchers*


Wrth astudio hanes teulu truenus y Tuduriaid llwyddodd disgyblion talentog blwyddyn 8 i greu posteri gwybodaeth rhagorol yn cyflwyno hanesion pob un o deyrnoedd y Tuduriaid. Roedd eu gwaith ymchwil yn fanwl, yn gywir ac fel y gwelwch yma wedi ei gyflwyno yn hynod drawiadol - ymdrech wych yn wir blwyddyn 8!

*Whilst studying the history of the terrible Tudors our talented year 8 pupils have succeeded in creating excellent informative posters presenting the stories of each of the members of the Tudor dynasty. Their research was meticulous, accurate and as you can see was presented in very impressive ways– fantastic effort year 8!*









# Ieithoedd Tramor Modern / Modern Foreign Languages

Ar ddydd Iau y 26ain o Fedi, fe ddathlon ni Ddiwrnod Ieithoedd Ewrop yn yr adran ITM.  Yn ystod y dydd roedd aelodau o'r staff gyfan wedi cyfarch eu dosbarthiadau mewn iaith gwahanol er mwyn codi ymwybyddiaeth o ieithoedd eraill.  Yn ystod amser cinio, cynhaliwyd lawer o weithgareddau yn yr adran ieithoedd dan ofal yr athrawon a disgyblion CA4 yn ogystal â'r Llysgenhadon iaith:

Taro'r toro'
Cwisiau iaith
Gwenu yn y ffram
Gwahanol gemau iaith
Roedd disgyblion hefyd wedi mwynhau blas o Ffrainc yn y *Café Français*.

*On Thursday the 26th October we celebrated European Day of Languages in the MFL department.  During the day the staff also helped out by greeting their classes in another language in order to raise awareness of different languages.  During lunchtime we had lots of activities going on in the languages department:*

*Pinning the tail on the 'toro'*
*Quizzes*
*Posing in the picture frame*
*A variety of different language games.*
*Pupils also enjoyed a taste of France in the Café Français.*











# Technoleg Gwybodaeth / Information Technology





Llongyfarchiadau i Mathew Jenkins o Flwyddyn 13 am ddod yn y pumed uchaf yng ngwobr BAFTA. Fe wnaeth Mathew greu gêm o'r enw Slow Moe wrth ddefnyddio Unity. Mae gwobrau BAFTA yn cael eu cynnal bob blwyddyn. Mae adran ar gyfer cynllunio gêm a hefyd creu cysyniad gêm . Am fwy o fanylion cysylltwch â Mrs Helen Evans Pennaeth Adran Digidol.




*Congratulations to Mathew Jenkins from Year 13 on his nomination for a young game designer's BAFTA award. Mathew created a computer game Slow Moe using Unity. The awards are held every year. There is a category for creating a game and also a game concept award. For further information on this year's award please contact Mrs Helen Evans Head of the Digital Department.*




Llongyfarchiadau i bawb a gymerodd rhan yng nghystadleuaeth Logo HWB. Derbyniwyd sawl cais llwyddiannus o flwyddyn 9, ond llongyfarchiadau arbennig i'r ddau yma am ddod yn fuddugol.

*Congratulations to everyone who took part in the Year 9 HWB logo competition recently. There were several impressive entries but there were 2 winners. Well done to you all!*




Mae holl ddisgyblion yr ysgol wedi llwyddo i ddefnyddio HWB yn y dosbarth. Mae disgyblion yn defnyddio HWB ar gyfer creu, rhannu a storio gwaith digidol. Mae Hwb yn galluogi mynediad i amrywiaeth eang o adnoddau ac appiau digidol. Mae mynediad gan y disgyblion i Office 365 sydd yn cynnwys meddalwedd Word, Excel neu PowerPoint sydd am ddim. Mae Onedrive yn rhan o becyn Hwb sydd yn storio dogfennau amrywiol ac unrhyw ddata digidol e.e. fideo, clip sain neu lun. Mae'n bosib rhannu unrhyw waith digidol trwy ddefnyddio enw defnyddwyr HWB athrawon. Mae'r adran yn defnyddio Hwb i gyflwyno gwaith cartref. Ni chaniateir i ddisgyblion ddefnyddio ffyn gof i drosglwyddo gwaith i system yr ysgol felly mae HWB yn hanfodol ar gyfer cyflwyno gwaith digidol. Mae'n bosib cyflwyno gwaith heb argraffu.




*All pupils are successfully using Hwb in the classroom. Pupils are creating, sharing and storing digital work. Pupils are able to access a wide range of resources and apps. Pupils have access to Office 365 which includes Microsoft applications and Google classroom. Onedrive is also included which can be used to store a range of documents as well as data in videos, sound files and pictures. It is possible to share any digital work with teachers by using Hwb usernames. The department only uses HWB to present homework.*

# Y Dyniaethau / Humanities

Yn ystod eu gwersi Hanes, Astudiaethau Crefyddol a Daearyddiaeth mae disgyblion blwyddyn 7 wedi bod yn ddigon ffodus i ddilyn thema wedi ei selio ar y Cwricwlwm Newydd i Gymru. Trwy astudio twristiaeth yn Sir Benfro a cheisio dod i benderfyniad a oes angen twristiaeth yn ein sir, mae'r disgyblion wedi llwyddo i ddatblygu amrywiaeth o sgiliau trawsgwricwlaidd gan ddysgu sut mae bod yn ddysgwyr uchelgeisiol, mentrus, creadigol ac yn ddinasyddion egwyddorol, gwybodus. Fel rhan o'r dysgu ag addysgu cafodd y disgyblion gyfle i fynd ar alldaith i Ddinbych y Pysgod i gwblhau gwaith maes ac i gasglu data cynradd am effaith twristiaeth ar Sir Benfro. Cafwyd ddiwrnod bendigedig a hyd yn oed gyfle am hufen-iâ! Yn dilyn hyn cawsant fynychu diwrnod twristiaeth arbennig yn yr ysgol er mwyn datblygu ymhellach eu dealltwriaeth o effaith twristiaeth ar wahanol sectorau busnes yn yr ardal leol. Diolch yn fawr iawn i'r holl siaradwyr gwadd am roi o'u hamser yn wirfoddol.



*During their History, Religious Studies and Geography lessons year 7 pupils have been fortunate enough to follow a theme based on the New Curriculum for Wales. By studying tourism in Pembrokeshire and evaluating the importance of tourism in our county, pupils have successfully developed a range of cross-curricular skills and learnt how to be ambitious, enterprising, creative learners and informed, principled citizens. As part of the teaching and learning the pupils had the opportunity to go on a fieldwork expedition to Tenby to collect primary data on the impact of tourism on Pembrokeshire. The pupils had a very informative day and even an opportunity for an ice cream! They then attended a special tourism day to further develop their understanding of the impact of tourism on different business sectors in the local area. Many thanks to all the guest speakers for volunteering to present to our pupils.*


















# Canolfan Iaith / Welsh Language Centre




**Llythyron Mr Urdd / *Letters to Mr Urdd***

Yn ystod y tymor hwn mae plant y Ganolfan wedi ysgrifennu llythyron at Mr Urdd a llenwi holiaduron 'CIP''. Gobeithiwn weld eu llythyron a'u holiaduron yn y cylchgronau 'Bore Da' a 'CIP' yn y misoedd nesaf.

*During this term, the pupils have written letters to Mr Urdd and filled in 'CIP' questionnaires. We hope to see their letters and questionnaires in the magazines during the next few months.*



**Diwrnod T Llew Jones / *T Llew.Jones Day***

Bu plant y Ganolfan yn dathlu Diwrnod T Llew Jones ar y 10fed o Hydref. Buont yn creu ffeil ffeithiau amdano, darllen ei gerdd 'Dawns y Dail' a gwneud gweithgareddau celf gyda dail.

*The Canolfan Iaith pupils celebrated T Llew Jones Day on the 10th of October. They created a fact file about him, read one of his poems and completed various craft activities using leaves.*

**Diwrnod Shwmae! / *Shwmae Day!***

Bu plant y Ganolfan yn brysur yn paratoi ar gyfer Diwrnod Shwmae yn ystod wythnos Hydref 15fed. Buont yn gwneud baneri, bathodynnau a chardiau Shwmae er mwyn hybu a hyrwyddo Cymreictod. Bu Mr Dafydd Vaughan o Fenter Iaith Sir Benfro hefyd yn gwneud gweithgareddau i hybu siarad Cymraeg gyda'r plant.

*The Canolfan Iaith pupils were busy during the week beginning October 15th learning about the national day of Shwmae. The Shwmae day is celebrated to promote the idea of starting every conversation with Shwmae. The event aims to show that the Welsh language belongs to us all—fluent speakers, learners or those shy about using their Welsh. The children made their own flags, badges and Shwmae cards. Mr Dafydd Vaughan from Menter Iaith Sir Benfro also came in to promote speaking Welsh with the children.*






# Pontio Bl 6 / Yr 6 Transition

Mae disgyblion blwyddyn 6 ysgolion cynradd y dalgylch wedi ymweld ag Ysgol y Preseli yn ystod y tymor fel rhan o raglen bontio Ysgol y Preseli. Cawson nhw gyfle i gymryd rhan mewn gwersi Chwaraeon, Cerddoriaeth, Cymraeg ac Iechyd a Lles. Diolch i staff yr ysgol ac i Mr Dafydd Vaughan o Fenter Iaith Sir Benfro am eu cefnogaeth. Edrychwn ymlaen at groesawu'r disgyblion yn ôl i Ysgol y Preseli ar ôl y Nadolig.






Cerdd







Chwaraeon





Cymraeg

*Year 6 pupils from the area visited Ysgol y Preseli this term as part of our transition programme. They took part in various lessons including Games, Music, Welsh and Health and Wellbeing. Thank you to the school staff and to Mr Dafydd Vaughan from Menter Iaith Sir Benfro for their assistance. We look forward to welcoming the pupils back to Ysgol y Preseli after Christmas.*



Iechyd a Lles


CYNGERDD NADOLIG
YSGOL Y PRESELI
18.12.19 + 19.12.19
THEATR Y GROMLECH
19.00
£6 OEDOLION (ADULTS) £4 PLANT (CHILDREN)

# Friends of Ysgol y Preseli / Ffrindiau Ysgol y Preseli

**'CLWB 300' - Ffurflen Ymaelodi / Membership Form**

Gallwch ymaelodi â'r 'Clwb 300' am £11 y flwyddyn ac mae 6 gwobr o £30 yn cael eu dosbarthu bob tymor. Os hoffech fod yn aelod plîs llenwch y ffurflen isod a'i dychwelyd i'r ysgol gydag arian neu siec yn daladwy i '**Ffrindiau Ysgol y Preseli - Clwb 300**' neu nodwch eich bod wedi trefnu i drosglwyddo'r arian yn syth i'r cyfrif banc gan ddefnyddio'ch **enw llawn fel cyfeirnod.**

Diolch yn fawr am eich cefnogaeth

Annual membership of the '300 club' costs £11 and there are 6 prizes of £30 per term. If you would like to become a member please fill out the form below and return it either with cash or a cheque for £11 made payable to '**Ffrindiau Ysgol y Preseli - Clwb 300**' or indicate that you have arranged to transfer the amount directly into the account using your **full name as the reference.**

Thank you very much for your support

---

## 'CLWB 300' Ffrindiau Ysgol Y Preseli

Enw/
Name:........................................................................................................................

Cyfeiriad/Address:......................................................................................................

..................................................................................................................................

Ffôn/Phone:............................................... Ebost/Email.................................................

*Ticiwch y blwch perthnasol / Please tick the relevant box:*

Amgaeaf £11 fel aelodaeth o'r clwb 300
I enclose the sum of £11 as membership of the '300 club' ☐

Rwyf wedi trefnu i drosglwyddo £11 i'r cyfrif a nodir isod
I have arranged to transfer the sum of £11 into the account detailed below ☐

Rwyf wedi trefnu i drosglwyddo £11 i'r cyfrif a nodir isod yn flynyddol
I have arranged to transfer the sum of £11 into the account detailed below each year ☐

**Manylion cyfrif / Account details**

Enw/name: Ffrindiau Ysgol y Preseli - Clwb 300 Banc/Bank: Lloyds, Community Account

Sort code: 30-91-65 Rhif cyfrif/Account No: 07283332

# Dyddiadau i'w cofio / Dates to remember

**Tachwedd 11eg/ *November 11th***

Noson Agored i flynyddoedd 4, 5 a 6 / *Open Evening for years 4, 5 a 6* (5.00-8.00yh/pm)

**Tachwedd 15fed / *November 15th***

Diwrnod Plant Mewn Angen / *Children in Need Day*

**Tachwedd 28ain/ *November 28th***

Ffair Nadolig / *Christmas Fayre (7.00yh/pm)*

**Tachwedd 29ain / *November 29th***

Diwrnod HMS (Dim ysgol i ddisgyblion) / *Inset Training Day (School closed for pupils)*

**Rhagfyr 2il tan Rafgyr 6ed / December 2nd until December 6th**

Arholiadau Mewnol Bl 7 –10 / *Internal Examinations Yr 7-10*

Ffug Arholiadau Bl 11, 12 a 13 / *Mock Examinations Yr 11, 12 a 13*

**Rhagfyr 11eg / *December 11th***

Diwrnod Iechyd a Lles bl 7 / *Year 7 Health and Wellbeing Day*

**Rhagfyr 12fed / *December 12th***

Diwrnod Iechyd a Lles bl 8 / *Year 8 Health and Wellbeing Day*



**Rhagfyr 13eg / *December 13th***

Diwrnod Iechyd a Lles bl 9 / *Year 9 Health and Wellbeing Day*

**Rhagfyr 17eg / *December 17th***

Diwrnod Iechyd a Lles bl 10 / *Year 10 Health and Wellbeing Day*

**Rhagfyr 18fed/ 19eg / *December 18th / 19th***

Cyngerdd Nadolig / *Christmas Concert (7.00yh/pm)*

**Rhagfyr 13eg tan Rhagfyr 21ain /**

***December 13th until December 21st***

Taith Sgio / Skiing Trip

**Rhagfyr 20fed / *December 20th***

*Adroddiadau bl 7-10 allan i rieni* / Yr 7-10 reports distributed to parents

**Diwedd y Tymor / *End of term***

***Ionawr 6ed / January 6th 2020***

*Ysgol yn ail-agor / School reopens for all*


Ffair Nadolig
Ysgol y Preseli
Christmas Fayre
Nos Iau / Thursday
28-11-19 7.00 yh/pm
Siôn Corn / Santa
Cynnyrch a Chrefftau Lleol
Local Produce and Crafts
Ocsiwn Dawel
Silent Auction
Raffl / Raffle
Pris Mynediad
Admissions:
Oedolion / Adults
£1.00
Plant / Children:
Am ddim! Free!
Croeso i bawb!
A warm welcome to all
Llywydd y Noson / Honorary President
Mrs Llio Phillips